

# Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol

Bae Abertawe



Swansea Bay  
Regional

Rhifyn 6

Engagement Team

## Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.



Llongyfarchiadau i Owain Jones 'Gyflawniad Unigol Gorau - Dyfarniad 25+'. Cafodd cyflawniad Owain yn dilyn ei atgyfeiriad i Workways + yn 2016, ei gydnabod yn y gystadleuaeth WEFO ddiweddar a lansiwyd i ddathlu 60 mlynedd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Darllenwch am stori Owain [yma](#)

Mae Workways+ yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a phrofiad gwaith â thâl i bobl ddi-waith yn y tymor hir, i'w helpu ar eu llwybr yn ôl i gyflogaeth. Gyda chefnogaeth o £ 7.5 miliwn o gronfeydd yr UE, bydd y cynllun o fudd i bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.

## Brexit: Diogelu Dyfodol Cymru

Mae'r diweddaraf mewn cyfres o bapurau '[Diogelu'r Dyfodol Cymru](#)' wedi cael ei lansio.

Mae '[Y Polisi Masnach: materion Cymru](#)' yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ein perthynas fasnachu yn y dyfodol gydag Ewrop a gweddill y byd ar ôl i ni adael yr UE.

## Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi

Cafodd y cynllun cyflogaeth newydd ar gyfer Cymru ei lansio ar Fawrth 20 gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan. Darllenwch y cynllun [yma](#).



# Regional Learning and Skills Partnership Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol South West & Mid Wales De-Orllewin a Canolbarth Cymru

Mae gwybodaeth yn bwer felly mae'r Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn annog cyflogwyr ac arbenigwyr diwydiant i'n helpu ni wrth dweud eich dweud am bob peth sgiliau yn rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru.

Rydym yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y cynnig addysgol yn y rhanbarth yn addas i'r diben i sicrhau bod gennych chi'r sgiliau cywir, yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

Fel un o'r tri Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru mae gennym y bŵer i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a allai wneud gwahaniaeth go iawn i'r rhanbarth a'r bobl sy'n dysgu, yn byw ac yn gweithio yma. Er mwyn gwneud hyn, mae angen tystiolaeth i'w bwydo i'n cynllun blynyddol!

Gobeithiwn y byddwch chi'n ymuno â ni i gael effaith bositif ar agenda sy'n bwysig i bawb ohonom.

Felly, dywedwch eich dweud a dylanwadwch ar y newidiadau sydd angen eu gwneud i gefnogi a datblygu'ch diwydiant trwy gwblhau'r [arolwg](#) byr yma.

Mae'r cwestiynau amlddewis yn rhoi'r cyfle i chi ddweud wrthym yr holl faterion sy'n effeithio ar eich busnes. Felly, cwblhewch i fod yn rhan o'r ateb.

## Mae 8 o 11 Cynllun Busnes y Bargen Ddinesig wedi cael eu danfon am gymeradwyaeth

Mae disgwyl y bydd nifer o brosiectau mawr sy'n rhan o fuddsoddiad Bargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £1.3 biliwn yn Ne-orllewin Cymru yn cael eu cymeradwyo yn ystod y misoedd nesaf.

Mae achosion busnes ar gyfer wyth o'r 11 prosiect sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig ar draws Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru erbyn hyn, er mwyn eu cymeradwyo.

Mae hyn yn rhan o'r camau sydd wedi eu cymryd ers i'r Prif Weinidog lofnodi'r Fargen Ddinesig wrth ymweld ag Abertawe fis Mawrth diwethaf. Mae camau eraill yn cynnwys adeiladu clwstwr creadigol a digidol 'Yr Egin' ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, yn ogystal â chyflwyno cais cynllunio amlinellol ar gyfer y Pentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant a gynllunnir yn y Llynnoedd Delta yn Llanelli.

Disgwylir i'r Fargen Ddinesig roi hwb o £1.8 biliwn i'r economi ranbarthol, a chreu 10,000 o swyddi o ansawdd uchel yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Ariennir y Fargen Ddinesig gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Bwriad y Fargen Ddinesig yw trawsnewid y ffordd y mae sectorau megis ynni, gwyddorau bywyd, y diwydiannau creadigol a gweithgynhyrchu yn cael eu cyflwyno ledled Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Bydd y Fargen Ddinesig yn cynnwys buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith digidol o'r radd flaenaf, yn ogystal â Menter Sgiliau a Thalentau a fydd yn rhoi llwybr i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau er mwyn iddynt gael mynediad at y swyddi a fydd ar gael. Dyma'r prosiectau arbennig iawn a fydd yn sylfaen i bob elfen o'r Fargen Ddinesig.

Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Arweiniol Dinas-ranbarth Bae Abertawe: "Ers i'r Fargen Ddinesig gael ei lofnodi, mae llawer iawn o waith wedi cael ei gyflawni yn y cefndir. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chyflwyno wyth o'r 11 achos busnes ar gyfer prosiectau er mwyn eu cymeradwyo, a hynny i'r ddwy lywodraeth. Disgwylir y bydd y rhai cyntaf yn cael eu cymeradwyo cyn hir.

"Fesul prosiect, gallwn ddechrau defnyddio buddsoddiad y Fargen Ddinesig sydd wedi'i sicrhau, unwaith y caiff achosion busnes unigol eu cymeradwyo.

"Mae gwaith cynhwysfawr hefyd yn cael ei wneud i gwblhau'r achosion busnes a fydd yn cael eu cyflwyno er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo yn y dyfodol."

Caiff y Fargen Ddinesig ei goruchwyllo gan Gyd-bwyllgor, sy'n cynnwys uwch-gynrychiolwyr o'r cynghorau, y byrddau iechyd a'r prifysgolion sy'n rhan o'r cynllun.

Er mwyn braenaru'r tir i'r corff gael ei sefydlu'n ffurfiol, disgwylir y bydd y pedwar cyngor rhanbarthol yn ystyried adroddiad cytundeb gan y Cyd-bwyllgor yn ystod y misoedd nesaf, a fydd yn amlinellu egwyddorion y gwaith.

Yn ogystal, bydd Bwrdd Strategaeth Economaidd y Fargen Ddinesig yn cael ei sefydlu maes o law er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith y Fargen Ddinesig drwy ymgysylltu â busnesau ledled y Ddinas-ranbarth. Penodir cadeirydd y sector preifat ar gyfer y Bwrdd Strategaeth Economaidd yn fuan.

## Cymorth Busnes a Menter Gymdeithasol - Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Darpariaeth Ranbarthol Gydlynol

Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus i roi gwybodaeth a rhwydweithio gan Dîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe - '*Cymorth Busnes a Menter Gymdeithasol - Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Darpariaeth Ranbarthol Gydlynol*' ar 15 Chwefror yng Ngwesty Mercure, Abertawe.



I ddechrau'r diwrnod, cafodd dros 60 o bobl gyfle i 'ddweud eu dweud' am bapur polisi Llywodraeth Cymru - [Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit](#). Y papur hwn a'r ymgynghoriad yw'r cam cyntaf yn y broses o lunio ffordd newydd o edrych ar fuddsoddi a datblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres o bapurau [Diogelu Dyfodol Cymru](#) sy'n cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer Cymru pan fyddwn wedi ymadael â'r UE.

Cafwyd cyflwyniadau gan Fenter 'Creu Sbarc', y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, Awdurdodau Lleol a Cholegau Addysg Bellach o'r rhanbarth yn ogystal â gweithrediadau Busnes Cymru. Felly, erbyn diwedd y dydd roedd pawb wedi cael cyfle i glywed am yr ystod eang o gymorth sydd ar gael i fusnesau a mentrau cymdeithasol yn y rhanbarth.

Cliciwch [yma](#) i weld y cyflwyniadau a gafwyd ar y diwrnod.



## Pobl ifanc yn y De-orllewin i elwa ar fuddsoddiad sylweddol gan yr UE

Bydd tua 2,000 o bobl ifanc yn y De-orllewin yn elwa ar raglen sgiliau newydd gyda chefnogaeth gwerth £4m o gyllid yr UE.

Dan arweiniad Cyngor Sir Penfro, bydd awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn mynd ati i ddarparu'r fenter Cam Nesa i roi cymorth dwys i bobl ifanc 16-24 oed di-waith sy'n wynebu heriau sylweddol i gael gwaith.

Bydd pobl ifanc yng Ngheredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn elwa ar y cynllun.

Bydd y buddsoddiad yn ariannu ystod o wasanaethau cymorth gan gynnwys mentora a chwmsela, a chyrsgiau i wella sgiliau cyffredinol a phersonol, hunan-barch a llythrennedd digidol.

Bydd y rhaglen tair blynedd hefyd yn rhoi cyfleoedd i ennill cymwysterau galwedigaethol, profiad gwaith a mynd i sesiynau blasu swyddi.

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford, y cyllid ar gyfer Cam Nesa fel rhan o fuddsoddiad ehangach gwerth £26m gyda chefnogaeth yr UE i helpu pobl ifanc ledled Cymru i gael gwaith.

Wrth siarad mewn digwyddiad yn Abertawe i nodi effaith cronfeydd yr UE yng Nghymru, ac i ddathlu 60 mlynedd ers lansio Cronfa Gymdeithasol Ewrop, dywedodd Mark Drakeford: "Rwy'n falch iawn ein bod ni wedi buddsoddi £193m o arian yr Undeb Ewropeaidd hyd yma i helpu ein pobl ifanc i wireddu eu potensial ac i wella eu cyfleoedd gyrfa.

"Mae'r prosiectau hyn yn enghreifftiau pellach o ba mor bwysig ydyw i Gymru gael yr un lefel o gyllid ag yr ydyn ni'n ei gael ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd, o goffrau'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit, er mwyn inni allu parhau i gefnogi pobl ifanc a'u helpu i sicrhau dyfodol ffyniannus."

Mae Cam Nesa yn fenter gwerth £5.7m a fydd hefyd yn cael ei hariannu gan yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y De-orllewin.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Miller, Aelod Cabinet dros yr Economi, Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant yn Sir Benfro: "Rydyn ni'n falch i groesawu arian ychwanegol gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y prosiect pwysig a chyffrous hwn.

"Bydd yr arian yn ein galluogi i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymorth ychwanegol i bobl ifanc dan anfantais ac agored i niwed yn ein cymdeithas, gan roi'r cyfle iddyn nhw wella'u sgiliau a'u cyfleoedd i gael swyddi. Mae'r buddsoddiad hwn yn newyddion da i Sir Benfro a'r rhanbarth. "





## Skills for Industry

Nod prosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant Cronfa Gymdeithasol Ewrop yw datblygu sgiliau unigolion cyflogedig, gan gynnwys pobl hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol sy'n cymryd rhan, a'r rheiny sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys Lefel 7.

Bwriad y prosiect yw cynorthwyo'r cyfranogwyr i wneud cynnydd drwy gefnogi hyfforddiant sy'n sicrhau bod darpariaeth

ddysgu yn y gweithle yn diwallu anghenion y cyflogwyr a'r gweithwyr unigol.

Hefyd, mae'r prosiect yn mynd i'r afael â bylchau sgiliau allweddol yn y farchnad lafur sy'n gallu cynorthwyo twf economaidd a chynnydd unigolion, ac felly'n sicrhau bod sgiliau'n parhau i fod yn gyfredol a bod anghenion y cyflogwyr yn cael eu diwallu.

Roedd Alex, sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant Cronfa Gymdeithasol Ewrop, eisoes wedi cwblhau ei gymwysterau Lefel 2 mewn Gofal Cymdeithas ac lechyd ac roedd yn awyddus i wneud cynnydd pellach felly dechreuodd yng Ngholeg Gŵyr Abertawe er mwyn ennill diploma Lefel 3. Nid yn unig y mae hyn wedi cynyddu lefel ei sgiliau yn y gweithle, mae hefyd wedi arwain at ofal gwell ar gyfer ei gleientiaid, perfformiad gwell a gwybodaeth arbenigol, a'r elw gorau posibl ar fuddsoddiad y cyflogwr.

Roedd cefnogaeth y prosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant yn galluogi Alex i adeiladu ei hyder yn ei rôl yn y gwaith, symud ymlaen i gymhwyster lefel uwch a dysgu sut i addasu a chroesawu newid.

Chwaraeodd cyllid Sgiliau ar gyfer Diwydiant ran fawr wrth alluogi Alex i ddatblygu yn ei rôl a gwella'i sgiliau'n barhaus wrth barhau i fod yn rhan hanfodol o'i sefydliad. O ganlyniad uniongyrchol i gyllid Sgiliau ar gyfer Diwydiant, mae wedi ennill cymhwyster Lefel 5 mewn Ymarfer Uwch sydd wedi caniatáu iddo wneud cynnydd sylweddol yn ei rôl.

Mae Alex bellach yn gweithio tuag at ei gymhwyster TAQA (Dysgu ac Addysgu), ac mae'n magu hyder ac yn ennill sgiliau newydd i'w alluogi i feddu ar ddealltwriaeth well o'i rôl a'r sector y mae'n gweithio ynddo. Yn ogystal, bydd ganddo gyfle i ddilyn llwybrau gyrfa ychwanegol o fewn y sefydliad a rhannu ei wybodaeth a'i sgiliau â gweithwyr eraill.

Mae Alex wedi gweithio'n galed drwy bob lefel - gan ddechrau ar Lefel 2 gyda sgiliau a dealltwriaeth gyfyngedig, hyd at gwblhau Lefel 5 mewn Ymarfer Uwch. Mae'n gyflawniad personol sylweddol a gall Alex bellach ddefnyddio'i wybodaeth a'i sgiliau i reoli tîm o staff a sicrhau bod ei weithle'n cael ei reoli a'i weithredu'n ddidrafferth.

---

## Rhaglen Ardal yr Iwerydd

### Galwad nesaf ar gyfer prosiectau wedi ei gyhoeddi!

Mae Rhaglen Ardal yr Iwerydd wedi cyhoeddi manylion a dyddiadau'r alwad nesaf ar gyfer y prosiectau a fydd ar agor rhwng **15fed o Fawrth – 1af o Fehefin 2018**. Fe fydd yn **alwad un-cam** ym meysydd arloesedd, effeithlonrwydd adnoddau, cydnerthu tiriogaethol, a chyfoeth naturiol a threftadaeth.

Mae mwy o wybodaeth ar yr alwad ar [wefan](#) y rhaglen, ynghyd â syniadau ar gyfer prosiectau a modd o chwilio am bartneriaid. Allech hefyd gysylltu â Guillaume Le Palud, Pwynt Cyswllt y DU ar gyfer Rhaglen Ardal yr Iwerydd (07825 645 583 / [guillaume.le-palud@communities.gsi.gov.uk](mailto:guillaume.le-palud@communities.gsi.gov.uk)) i drafod a datblygu eich syniadau ar gyfer prosiectau.

---

## Rhaglen Gogledd Orllewin Ewrop

### Galwad nesaf ar gyfer prosiectau

Mae ail alwad ar gyfer prosiectau Rhaglen Ardal yr Iwerydd eisoes ar agor tan y 1af o Fehefin. Dyma alwad un-cam ar gyfer prosiectau, gwerth dros €40m ar draws y meysydd - arloesedd, effeithlonrwydd adnoddau, peryglon tiriogaethol, a bioamrywiaeth (gan gynnwys asedau naturiol a diwylliannol).

I ddarganfod mwy, dewch i **Ddiwrnod Gwybodaeth Ardal yr Iwerydd yn Stadiwm Liberty, Abertawe ar ddydd Gwener 13eg o Ebrill**. Fe fydd y digwyddiad ar agor i rhanddeiliad y DU â diddordeb mewn gwneud cais, rhwydweithio neu sydd eisoes wedi dechrau'r broses o greu partneriaeth. Fe fydd Pwynt Cyswllt y DU, Guillaume Le Palud, yn darparu gwybodaeth ar yr ail alwad ac fe fydd hefyd cyfle i archebu cyfarfod uniongyrchol gyda Guillaume I drafod a datblygu eich syniad ar gyfer prosiect.

Fe fydd y diwrnod yn dechrau am 10:00, gyda chinio a lluniaeth wedi eu cynnwys. Felly cofrestrwch nawr [yma!](#)

Ar gyfer fwy o wybodaeth ar y Rhaglen a'r ail alwad, ewch i [www.atlanticarea.eu](http://www.atlanticarea.eu) a dilynwch [@wefocymru](#) ar Twitter.

---

## Camau Nesaf

Ynghyd â Phwyntiau Cyswllt y DU, rydym yn trefnu gweithdai ar hyd y DU a fydd yn darparu gwybodaeth fanwl i ddarpar bartneriaid a help i wneud cais i'r ddwy raglen – fe fyddwn yn eich hysbysu unwaith mae'r digwyddiadau wedi eu cadarnhau.

Fe fydd unrhyw ddatblygiadau yn cael eu cyhoeddi trwy gyfrif Twitter WEFO: [@wefowales](#) / [@wefocymru](#) a chyfrifon y rhaglenni: [@AtlanticArea](#) a [@INTERREG\\_NWE](#)

---

## Erasmus+

### Mae galwad cyllid Erasmus+ 2018 nawr ar agor

Mae €2.7 biliwn ar gael yn fyd-eang ar gyfer addysg, hyfforddiant, prosiectau ieuenctid a chwaraeon; mwy nag erioed o'r blaen.

**I ddod o hyd i ddyddiadau cau, llawlyfr y rhaglen a rhagor o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

---

### Rhaglen Horizon 2020, sy'n werth dros €70 biliwn, yw rhaglen ymchwil ac arloesi fwyaf erioed yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'n galluogi sefydliadau Cymru i fod ar flaen y gad yn y byd ymchwil ac arloesi rhyngwladol, ac i gydweithio gyda'r prif sefydliadau ar draws Ewrop a'r byd.

Mae Horizon 2020 ar agor ar hyn o bryd, gyda'r holl geisiadau llwyddiannus a wneir tra bod y DU yn rhan o'r UE yn cael eu gwarchod dan warant Llywodraeth y DU.

Mae sefydliadau Cymru wedi llwyddo i ennill ychydig dros €83 miliwn o gyllid Horizon 2020 ers dechrau'r rhaglen. Mae hyn wedi golygu 191 cyfranogiad a 2000 enghraifft o gydweithio rhyngwladol.

Gellir gweld y manylion llawn ar wefan **Horizon 2020**, gan gynnwys gwybodaeth am yr amrywiol raglenni gwaith.

Mae Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru ar gael i gynorthwyo'r holl sefydliadau yng Nghymru sy'n gwneud neu'n ystyried gwneud cais am gyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi gan yr Undeb Ewropeaidd.

---

## Ewrop Greadigol

Nod rhaglen Ewrop Greadigol yw cefnogi sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol Ewrop.

Mae'r gwahanol gynlluniau cyllido yn annog cyfranogwyr yn y sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol i weithredu ledled Ewrop er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn yr oes ddigidol.

**I gael rhagor o wybodaeth ac i agor galwadau, cliciwch [yma](#)**



## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

**Mae'r cyfleoedd cyllid cynllun RDG canlynol bellach ar agor:**

### Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth

Yn annog cynllunio ar gyfer creu coetir llydanddail a chonwydd a chyfrannu at gyflawni amcanion Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP). Trwy roi help ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau fydd yn helpu i wireddu'r nod hwn, gan:

- reoli'n hadnoddau naturiol yn well
- cyfrannu at les ein cymunedau gwledig.

Amcan y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth yw cefnogi cynigion sy'n ceisio hwyluso, datblygu neu sefydlu trefniadau cydweithio a gweithgareddau newydd a helpu trefniadau cydweithio newydd posib i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau.

**Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

### Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

Nod y cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio yw helpu i sicrhau bod pethau newydd yn digwydd. Bydd yn rhoi cymorth ar gyfer amrywiaeth eang o faterion ac ar gyfer pob agwedd ar brosiect. Bydd yn cynnig cymorth o'r camau cychwynnol hyd y cyfnod cyflwyno ac i'r cyfnod lledaenu a gwerthuso. Ni all y cynllun gefnogi gweithgareddau ar y cyd sydd eisoes yn mynd rhagddynt ond o dan y cynllun gellir rhoi cymorth i grŵp sydd eisoes yn bodoli i ymgymryd â phrosiect newydd ar y cyd.

Nod y cynllun yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaeth, bwyd a choedwigaeth

**Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

### Grant Busnes i Ffermydd

Nod y Grant Busnes i Ffermydd (FBG) yw helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

**Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

## Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren

Mae'r cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn rhoi cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf sy'n ychwanegu at werth coedwigoedd drwy gynnal gweithgareddau rheoli coetir, cynaeafu pren a/neu brosesu pren.

**Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

## Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Bwyd

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - BWYD (RBISF) yn buddsoddi cyfalaf i helpu prosiectau sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cael helpu cwmnïau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.

Mae'n buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod nad yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cael eu helpu.

Gall gynnig grant o hyd at werth 40% o gost prosiect buddsoddi, hyd at £50,000.

**Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

## Creu Coetir Glastir

Mae cynllun Creu Coetir Glastir yn darparu cymorth ariannol ar gyfer gwaith plannu newydd. Mae cymorth ariannol ar gael hefyd ar gyfer plannu coed ar dir sy'n parhau i gael ei bori fel rhan o system

Amaeth-Goedwigaeth h.y. sy'n cyfuno amaethyddiaeth a choedwigaeth.

**Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

## Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru



Bu Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru yn llwyddiannus gyda chais i'r rhaglen LEADER ar gyfer syniad arloesol; roeddent yn dymuno cynnal prosiect peilot i ymchwilio i ddull newydd o adfer nentydd yr effeithiwyd arnynt gan asideiddio. Mae asideiddio'n effeithio ar lawer o'r nentydd ucheldirol sy'n draenio Mynyddoedd Cambria yn Sir Gaerfyrddin, yn enwedig y rhai sydd â phlanhigfeydd conifer helaeth yn eu dalgylchoedd.

Mae'r prosiect yn cynnwys Doethie, un o isafonydd Afon Tywi, ac yn defnyddio gronynnau calchfaen i gywiro'r asidedd ac adfer ecoleg yr afon gan gynnwys poblogaethau pysgod. Mae mynediad at rannau o'r dalgylch i ddsio â chalchfaen yn anodd oherwydd y planhigfeydd conifer trwchus a'r amodau pridd corsio ynghyd ag ychydig o draciau coedwigaeth. Fodd bynnag, mae rhwydwaith o ffosydd draenio'n bodoli, a'r rheiny'n dod ynghyd mewn cwlferi ochr yn ochr â thraciau coedwigaeth cyn eu bod yn dadlwytho i mewn i'r nentydd. Y gobaith yw y bydd hyn yn niwtraleiddio asidrwydd y dŵr cyn ei fod yn mynd i mewn i'r nant.

Bydd y prosiect yn helpu i adfer poblogaethau pysgod a fydd yn helpu i wella economi wledig Sir Gaerfyrddin oherwydd y cyfraniad y byddent yn ei wneud i enweirio a thwristiaeth genweirio. Byddai gwelliannau cyffredinol i fioamrywiaeth hefyd oherwydd y nifer fwy o rywogaethau a fyddai'n bresennol mewn ecosystemau afonydd adferedig. Bydd adfer yr afonydd yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at dargedau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd y targedau a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a hefyd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Yn ystod y cynllun peilot 2 flynedd bydd ansawdd y dŵr yn cael ei fonitro'n barhaus gyda'r canfyddiadau'n cael eu rhannu ag ymddiriedolaethau eraill o'r un anian.



## Mae prosiect cyffrous i greu Llwybr Dyffryn Tywi wedi cael hwb ariannol o £128,000

Mae'r grant wedi cael ei roi drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Bydd y Cyngor yn darparu arian cyfatebol o £32,000 tuag at greu'r rhan hon o'r llwybr sy'n dilyn rhan o'r hen ffordd ac a fydd yn cysylltu â llwybrau mewnol Gerddi Palas yr Esgob.

Dywedodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: "Rwy'n falch o allu cefnogi Llwybr Dyffryn Tywi ac mae'n wych gweld bod y prosiect hwn yn dechrau symud yn ei flaen. Bydd y llwybr o fudd i bobl leol sydd am fwynhau'r awyr agored, yn ogystal â rhoi hwb i'r gymuned wledig a thwristiaeth yn yr ardal."

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y llwybr drwy ardal brydferth Dyffryn Tywi yn dilyn trywydd yr hen linell reilffordd o Gaerfyrddin i Landeilo, a disgwylir y bydd yn rhoi hwb i dwristiaeth a'r economi leol ac yn annog pobl i fod yn egniol ac i deithio'n gynaliadwy.

Disgwylir i'r llwybr ddenu oddeutu 20,000 o ymwelwyr y flwyddyn pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, a chynhyrchu rhwng £860,000 a £2 filiwn y flwyddyn yn yr economi leol.

### Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,  
Business Resource Centre,  
Parc Amanwy,  
Ammanford.  
SA18 3EP

01554 742473 / [swanseabayret@sirgar.gov.uk](mailto:swanseabayret@sirgar.gov.uk)

